Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Inclusive Skills: Food Preparation

## Competition Overview

A food preparation assistant plays a vital role in a restaurant kitchen; they are the backbone of a smooth kitchen operation. They support the chefs and ensure the kitchen workplace and equipment are maintained to the highest standards.

In this competition, competitors will be assessed on their knowledge and skills in the following areas: Health and safety, hygiene, knife skills, use of equipment, presentation skills and knowledge of flavour combinations.

## Entry Criteria

ing towards EntryThe competition is for those training for a career in the Hospitality Industry and studying at work Level 3. Competitors can be registered on Entry Level 3 but not yet achieved their Level 3. Entry level 1 and 2 may enter.
Please ensure your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 2 per location.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed.

## Brief

## Task One: Salad, Sandwich and Eton Mess - 1 hour

For each part of Task 1 Competitors must bring their own small equipment such as whisks and graters. If desired competitors can bring their own chopping boards and knives if they prefer to use familiar equipment.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021

## Starter Salad - A rainbow theme

Competitors will be required to make a rainbow theme starter salad utilising as many of the colourful ingredients provided, marks will be lost for poor utilisation of ingredients. The provided ingredients will incorporate as many colours as possible. Presentation is entirely up to competitors and they must bring their own display equipment such as plates etc.

**Guidance notes**:

- A Rainbow theme.
- Utilise as many colourful ingredients as possible. Examples of ingredients are lettuce, tomatoes, various colours of peppers/beetroots, cucumber, olives, carrot, spring onions, avocado, heritage tomatoes, etc.
- Presentation is of competitors own choice.
- Competitors are to bring their own display equipment.
- All ingredients will be provided.

## Sandwich

For this task competitors will be required to make a cheese and onion sandwich on sliced brown bread (not a roll).

Presentation is entirely up to competitors and they must bring their own display equipment such as plates etc.

- To show knife and grating skills the bread should be buttered, cheese should be grated and onion to be cut/sliced, during the competition.
- Presentation is to competitors own choice.
- Competitors are to bring their own display equipment.
- Competitors will be provided with all ingredients for this task.

## Eton Mess

For this task competitors will be required to make Eton Mess using meringue, strawberries and whipped cream. To show whisking skills the cream should be whipped during the competition. To show knife skills the strawberries should be cut during the competition.

Presentation is entirely up to competitors and they must bring their own display equipment such as plates, bowls etc.

- To show whisking skills the cream must be whipped during the competition.
- To show knife skills the strawberries must be cut during the competition.
- Presentation is entirely up to competitors
- Competitors must bring their own display equipment such as plates, bowls.
- Competitors will be provided with all ingredients for this task.

## Task 2: Mystery Box – 20 minutes
Mystery Box will be revealed on the day of the competition.
This task will involve Knife skills

**To be provided by the host:**
All ingredients to be provided by the host.

**To be provided by the competitor:**
- Own uniform and PPE.
- Competitors provide their own plates/platters for display of completed food each task.
- Competitors must bring all their own small equipment i.e. knife, whisks and graters.
- If desired entrants can bring their own equipment.

## Infrastructure List
**Resources provided:**
Workstation, spoon, chopping board, bowls, and fridge space.

## Competition Rules
For full terms and conditions of entry and competition rules visit www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions

**Competition specific rules**:
- Competitors will receive a health and safety briefing at the start of the competition.
- Competitors will start, and finish work as instructed by the judges
- Competitors must provide their own uniform and PPE. Support staff accompanying in the competition area will also be required to adhere to PPE requirements.
- Any specialist equipment required to meet individual needs of the competitor must be provided by the competitor / entering organisation.
- A Statement of Support outlining any individual needs of the learner within the competition - ie, support with communication etc, will need to be completed (date to be advised).
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act accordingly to the instruction of the organiser.
- If during the competition a competitor feels they must leave their work (eg. medical reasons, toilet break), they will have the time recorded on a 'time out' sheet by a member of staff.
- No mobile telephones are allowed in the competition room.
- The judges' decision is final.
- Photographs will be taken during the event that may be used for marketing/publicity purposes. (if a competitor/support staff cannot have their photo taken it is the responsibility of the college entering the competition to notify the organisers beforehand and at the event.

- Only one member of support staff will accompany the competitor from your organisation – unless otherwise stated on the Statement of Support.
- Competitors must only receive support that is outlined in their support statement. Support deemed to be outside that given in the support statement could result in the competitor being disqualified from the competition.

**Generic competition rules**

- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief marking and assessment criteria:

| | **Criteria** | **Allocated marks** |
|---|---|---|
| **A** | Correct use of equipment and working practices. | 10% |
| **B** | Presentation, Creativity and Style | 20% |
| **C** | Utilisation of Ingredients and Equipment | 20% |
| **D** | Taste | 20% |
| **E** | Time Keeping | 10% |
| **F** | Personal appearance/Hygiene and Safety (PPE) | 20% |
| | Total | 100% |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day, as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 17th March 2022, where the First, Second and Third Awards will be announced.  Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

Ceri Nicholls – ceri.nicholls@cambriantraining.com

**Expert Contacts**

Linda Thomas - linda.thomas@colegsirgar.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Sgiliau Cynhwysol: Paratoi Bwyd

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae cynorthwyydd paratoi bwyd yn chwarae rhan hanfodol mewn cegin bwyty; nhw yw'r asgwrn cefn i waith cegin esmwyth. Maent yn cefnogi'r cogyddion ac yn sicrhau bod y gweithle a'r offer yn cael eu cynnal i'r safonau uchaf.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd cystadleuwyr yn cael eu hasesu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y meysydd canlynol: Iechyd a diogelwch, hylendid, sgiliau cyllyll, defnyddio offer, sgiliau cyflwyno a gwybodaeth am gyfuniadau o ran blas.

## Meini Prawf Mynediad

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Lletygarwch ac yn astudio i weithio tuag at Lefel Mynediad 3. Gellir cofrestru cystadleuwyr ar Lefel Mynediad 3 cyn belled nad ydynt wedi cyflawni Lefel 3 eto. Gall lefel mynediad 1 a 2 ymgeisio.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at 2 o bob lleoliad.
Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae'r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae'r 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi.

Briff

## Tasg Un: Salad, Brechdan ac Eton Mess – 1 awr

Ar gyfer pob rhan o Dasg 1, mae rhaid i gystadleuwyr ddod ag offer bychan eu hunain fel chwisgiau a gratwyr. Os ydynt yn dymuno,

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021

gall y cystadleuwyr ddod â byrddau torri a chyllyll eu hunain os oes well ganddynt ddefnyddio offer cyfarwydd.

## Cwrs Cyntaf Salad – Thema enfys

Gofynnir i gystadleuwyr wneud salad gyda thema enfys ar gyfer y cwrs cyntaf. Bydd angen defnyddio cymaint o'r cynhwysion lliwgar a ddarperir a bydd marciau'n cael eu colli am ddefnydd gwael o’r cynhwysion. Bydd y cynhwysion a ddarperir yn cynnwys cymaint o liwiau â phosibl. Mae cyflwyniad y pryd i’w benderfynu yn gyfan gwbl gan y cystadleuwyr ac mae rhaid iddynt ddod â'u hoffer arddangos eu hunain fel platiau ayyb.

**Canllawiau:**

- Thema Enfys.
- Defnyddiwch gymaint o gynhwysion lliwgar â phosibl. Enghreifftiau o gynhwysion yw letys, tomatos, amryw o liwiau o bupur/betys, ciwcymbr, olifau, moron, nionod/sibols, afocado, tomatos treftadaeth, ayyb.
- Y cystadleuwyr eu hunain fydd yn penderfynu ar gyflwyniad y pryd.
- Bydd cystadleuwyr yn dod â'u hoffer arddangos eu hunain.
- Bydd yr holl gynhwysion yn cael eu darparu.

## Brechdan

Ar gyfer y dasg hon bydd yn ofynnol i gystadleuwyr wneud brechdan caws a nionod/winwns ar fara brown wedi'i sleisio (nid rholyn).

Mae cyflwyniad y pryd i’w benderfynu yn gyfan gwbl gan y cystadleuwyr ac mae rhaid iddynt ddod â'u hoffer arddangos eu hunain fel platiau ayyb.

- Er mwyn dangos sgiliau cyllell a gratio, dylai bod menyn ar y bara, y caws wedi gratio a’r nionod/winwns wedi torri/sleisio yn ystod y gystadleuaeth.
- Y cystadleuwyr eu hunain fydd yn penderfynu ar gyflwyniad y pryd.
- Bydd cystadleuwyr yn dod â'u hoffer arddangos eu hunain.
- Bydd yr holl gynhwysion yn cael eu darparu ar gyfer y dasg hon.

## Eton Mess

Ar gyfer y dasg hon, gofynnir i gystadleuwyr wneud Eton Mess gan ddefnyddio meringue, mefus a hufen wedi'i chwipio. Er mwyn dangos sgiliau chwisgio, dylai bod yr hufen yn cael ei chwipio yn ystod y gystadleuaeth. Er mwyn dangos sgiliau cyllell, dylai bod y mefus yn cael eu torri yn ystod y gystadleuaeth.

Mae cyflwyniad y pryd i’w benderfynu yn gyfan gwbl gan y cystadleuwyr ac mae’n rhaid iddynt ddod â'u hoffer arddangos eu hunain fel platiau, powlenni ayyb.

- Er mwyn dangos sgiliau chwisgio, mae rhaid i’r hufen gael ei chwipio yn ystod y gystadleuaeth.

- Er mwyn dangos sgiliau cyllell, mae rhaid i’r mefus gael eu torri yn ystod y gystadleuaeth.
- Mae cyflwyniad y pryd i’w benderfynu yn gyfan gwbl gan y cystadleuwyr.
- Rhaid i’r cystadleuwyr ddod â'u hoffer arddangos eu hunain fel platiau, powlenni.
- Bydd yr holl gynhwysion yn cael eu darparu ar gyfer y dasg hon.

## Tasg 2: Blwch Dirgel – 20 munud

Bydd y Blwch Dirgel yn cael ei ddatgelu ar ddiwrnod y gystadleuaeth.
Bydd y dasg hon yn cynnwys sgiliau Cyllell.

**I'w ddarparu gan y gwesteiwr:**
Bydd yr holl gynhwysion yn cael eu darparu gan y gwesteiwr.

**I'w ddarparu gan y cystadleuydd:**
- Gwisg eich hunain a chyfarpar diogelu personol (PPE).
- Y cystadleuwyr fydd yn darparu eu platiau eu hunain i arddangos y bwyd wedi'i gwblhau ar ddiwedd pob tasg.
- Rhaid i gystadleuwyr ddod â'u holl offer bychan eu hunain, h.y. cyllell, chwisgiau a gratwyr.
- Os ydynt yn dymuno, gall yr ymgeiswyr ddod â’u hoffer eu hunain.

## Rhestr Seilwaith

**Adnoddau a ddarparwyd:**
Man gweithio, llwy, bwrdd torri, powlenni, ac ardal yn yr oergell.

## Rheolau’r Gystadleuaeth

Am yr holl delerau ac amodau ynghylch ymgeisio a’r rheolau cystadlu ewch i
https://inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions?lang=cy

**Rheolau sy'n benodol i’r gystadleuaeth**:
- Bydd cystadleuwyr yn derbyn briff iechyd a diogelwch ar gychwyn y gystadleuaeth.
- Bydd y cystadleuwyr yn cychwyn a gorffen eu gwaith yn unol â chyfarwyddiadau’r beirniaid.
- Rhaid i’r cystadleuwyr ddarparu gwisg a chyfarpar diogelu personol (PPE) eu hunain. Bydd hefyd yn ofynnol i staff cymorth sydd yn ardal y gystadleuaeth gadw at ofynion cyfarpar diogelu personol (PPE).
- Rhaid i unrhyw offer arbenigol sydd ei angen oherwydd anghenion unigol y cystadleuydd gael ei ddarparu gan y cystadleuydd / sefydliad sy'n ymgeisio.
- Bydd angen cwblhau Datganiad o Gymorth yn amlinellu unrhyw anghenion unigol sydd gan y dysgwr yn y gystadleuaeth – h.y., cymorth gyda chyfathrebu ayyb. (dyddiad i'w gynghori).

- Os bydd toriad trydan, yr offer yn methu neu bydd damwain yn digwydd, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu'n unol â chyfarwyddiadau'r trefnydd.
- Os bydd cystadleuydd yn teimlo bod rhaid gadael ei gwaith yn ystod y gystadleuaeth (e.e. rhesymau meddygol, egwyl toiled), bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar ddalen 'amser allan' gan aelod o staff.
- Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ystafell gystadlu.
- Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.
- Gall lluniau a fydd yn cael eu tynnu yn ystod y digwyddiad gael eu defnyddio at ddibenion marchnata/cyhoeddusrwydd – os nad yw'r cystadleuydd / staff cymorth yn medru bod yn y lluniau, cyfrifoldeb y coleg sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth yw hysbysu'r trefnwyr o flaen llaw ac yn y digwyddiad ei hun.
- Dim ond un aelod o staff cymorth fydd yn mynd gyda'r cystadleuydd o'ch sefydliad – oni nodir yn wahanol ar y Datganiad o Gymorth.
- Dim ond cymorth a amlinellir yn eu Datganiad o Gymorth y dylai'r cystadleuwyr ei dderbyn. Gallai cymorth sydd yn cael ei ystyried tu hwnt i'r hwnnw a amlinellir yn y Datganiad o Gymorth arwain at angymhwyso'r cystadleuydd o'r gystadleuaeth.

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael eu gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb unigol pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylai rhoi gwybod i'r panel beirniadu am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu o'r Darparwr Hyfforddiant yn marcio ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi'u gosod i sicrhau cysondeb.

Crynodeb o'r meini prawf marcio ac asesu:

| | Meini Prawf | Marciau a ddyrannwyd |
|---|---|---|
| **A** | Defnydd cywir o offer ac arferion gweithio. | 10% |
| **B** | Cyflwyniad, Creadigrwydd ac Arddull | 20% |
| **C** | Defnyddio Cynhwysion ac Offer | 20% |
| **D** | Blas | 20% |
| **E** | Cadw at Amser | 10% |
| **F** | Hunan-ddangosiad/Hylendid a Diogelwch (Cyfarpar Diogelu Personol - PPE) | 20% |
| | Cyfanswm | 100% |

## Adborth a Chydnabyddiaeth
Darperir adborth llafar yn unigol ac mewn grŵp ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau yn cael eu rhoi ar y diwrnod gan y bydd y marcio'n cynnwys elfen sicrhau ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn derbyn Tystysgrif Cyfranogiad ac yn cael eu gwahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 17eg Mawrth 2022, lle cyhoeddir pwy ddaeth yn Gyntaf, yn Ail ac yn Drydydd. Bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt dros e-bost.

Bydd taflenni marcio ar gael i gystadleuwyr ar ôl cwblhau'r broses sicrhau ansawdd.

## Arweinydd y Gystadleuaeth
Ceri Nicholls – ceri.nicholls@cambriantraining.com

**Cyswllt Arbenigol**
Linda Thomas – linda.thomas@colegsirgar.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021